CYNNAL

CÔD DREIFIO AR DIR YSGOL

CÔD DREIFIO AR DIR YSGOL

Canllawiau i sicrhau fod staff CYNNAL yn teithio ac yn gyrru yn ddiogel yng nghyffiniau ac ar dir ysgolion.

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â'r Canllawiau Teithio'n Ddiogel.

Dylai staff ddilyn y canllawiau canlynol wrth ymweld ag ysgolion :

- Os yn bosibl peidio â symud cerbydau ar dir ysgolion yn ystod cyfnodau cinio / amser chwarae. Os nad oes opsiwn arall, gofyn am gymorth oedolyn i gadw'r plant draw ac i sicrhau nad yw'r plant yn agos i'r fan / cerbyd.

- Cymryd gofal ychwanegol wrth deithio ar iard ysgolion.

- Gosod 'reversing alarms' ar faniau CYNNAL.

- Atgoffa staff i gydymffurfio gyda pholisïau ysgol unigol ynglŷn â mynediad i gerbydau ar dir ysgol a lle i barcio ceir/cerbydau.

- Cymryd gofal ychwanegol wrth agosáu at gyffiniau ysgolion, yn enwedig ar yr adegau pan fo disgyblion yn cyrraedd a gadael yr ysgolion.

Ni ddylid, ar unrhyw achlysur ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru, ac mae hyn yn fwyfwy pwysig wrth ddreifio ar dir ysgol, ac yn enwedig ar adegau agor ysgolion, amseroedd cinio a phan fo'r ysgolion yn cau.

Dylai Rheolwyr Llinell fonitro arddull dreifio staff wrth fynychu ysgolion ar y cyd.